WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllun Blynyddol 2014-15

# Cynllun Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015

Paratowyd y Cynllun Blynyddol hwn ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru dan adran 25(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Fe'i cyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan adran 26 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Isobel Garner (Cadeirydd), Steven Burnett, David Corner, Christine Hayes, Peter Price a Huw Vaughan Thomas[1]
**Swyddfa Archwilio Cymru**

1 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru dan baragraff 1(2)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn rhinwedd ei swydd. Fodd bynnag, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn endid cyfreithiol ar wahân.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4 |
| Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru | 5 |
| Strategaeth 2013-2016 ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru | 6 |
| Gwaith yr Archwilydd Cyffredinol (a'i Archwilydd Penodedig) | 8 |
| Rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru | 13 |
| Gwaith i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilydd Cymru ar y cyd | 16 |
| Ein hincwm a'n gwariant 2014-15 | 17 |
| Atodiad 1: Rhaglen 2014-15 | 22 |

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru



Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi cyrraedd rhyw fath o groesffordd, yn wynebu penderfyniadau a fydd yn effeithio ar y gallu i ddarparu am ddegawdau i ddod. Yn gynyddol mae o adroddiadau archwiliadau cyhoeddus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi pwysleisio'r angen i ailgynllunio ac ailwampio wrth i adnoddau leihau a'r galw gynyddu. Mewn ymateb i'r pwysau, sydd heb ei debyg, rhaid i archwiliadau cyhoeddus ganolbwyntio ar feysydd sy'n cyflwyno'r atebion pwysicaf o ran beth sy'n llwyddo a beth sydd angen ei newid. Mae cynnal hyder y cyhoedd o ran sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario yn bwysicach nag erioed, ac rwy'n bwriadu cryfhau ein pwyslais ar lywodraethu yn y flwyddyn i ddod. Mae adroddiad diweddar y *Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus* yn awgrymu bod llawer o'r negeseuon o adroddiadau archwilio blaenorol yn dylanwadu ar y ffordd o feddwl yma yng Nghymru. Felly, mae'n bwysig fy mod i, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn parhau i fwrw golwg amserol a defnyddiol ar batrymau gwariant cyhoeddus y gorffennol a'r dyfodol.

Fy rôl fel Archwilydd Cyffredinol yw adrodd ar y canlynol:

- a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- a oes atebolrwydd priodol am arian cyhoeddus;
- a yw gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwella.

Fel archwilydd allanol annibynnol sector cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i mi allu dibynnu ar y rhai sy'n helpu i gyflwyno fy rhaglen archwilio i wneud hynny i'r safonau proffesiynol uchaf, ac yn yr un modd, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddangos trefn lywodraethu dda a stiwardiaeth effeithiol o adnoddau cyhoeddus.

Dyna pam rwy'n falch o weithio gyda'r Bwrdd sydd newid ei benodi dan drefniadau llywodraethu sy'n rhoi sicrwydd priodol i'r cyhoedd ynglŷn â defnyddio adnoddau ar gyfer archwiliad cyhoeddus, tra'n diogelu fy annibyniaeth fel archwilydd. Yn unol â'r Cynllun Blynyddol, byddaf yn parhau i elwa ar ymrwymiad a phroffesiynoldeb fy nghydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru wrth i mi gynllunio ac adrodd am fy rhaglen archwilio.

Huw Vaughan Thomas

# Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru



Mae eleni'n flwyddyn o newid i Swyddfa Archwilio Cymru. Er y bydd yn parhau i ganolbwyntio ar helpu i gyflawni gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol i'r safon uchaf, mae cryn dipyn yn newid y tu ôl i'r llenni.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gorff corfforaethol erbyn hyn, gyda Bwrdd, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'n cynnwys aelodau o bob math o gefndiroedd gwahanol, a fydd yn cynghori ac yn monitro'r Archwilydd Cyffredinol ac yn darparu adnoddau ar gyfer ei waith. Mae'r Bwrdd yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr hefyd. Ni fydd y Bwrdd yn cael ei gyfansoddi'n llawn tan ddiwedd mis Mai 2014 oherwydd y broses o ethol gweithwyr cyflogedig yn aelodau. Er hynny, mae'r broses o sefydlu mecanweithiau a chysylltiadau'r Bwrdd a sefydlu'r trefniadau llywodraethu yn unol â'r ddeddf, yn mynd rhagddi'n dda.

Yn y cam cynnar hwn, rydym yn bwrw golwg agosach ar drefniadau i sicrhau bod ein dulliau llywodraethu yn briodol ac wedi'u cynllunio'n dda, a'n bod ni'n sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda ac yn defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol ac yn effeithlon. Rydym hefyd, ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol a'i Uwch Dîm Arwain, yn buddsoddi amser i adolygu cyfeiriad a blaenoriaethau strategol Swyddfa Archwilio Cymru fel y gall gefnogi a chyflawni ei amcanion craidd o ddarparu sicrwydd, cynnig cipolwg a hyrwyddo gwelliant. Hoffem weld ein rhanddeiliaid yn elwa ar waith ein sefydliad, a'n nod yw helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau eu bod yn llwyddo ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu, gan gydnabod yr hyn sy'n dda, a rhannu arferion gorau.

I'r perwyl hwn, rydym yn ad-drefnu strwythur uwch-reolwyr Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cryfhau'r ffocws ar gleientiaid, targedu ein gwaith yn well ac ymgysylltu'n well â chyrff cyhoeddus Cymru.

Mae'r Bwrdd a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd yn cychwyn ar daith gyffrous, heriol a gwerth chweil. Rydym yn ymrwymo i archwilio cyhoeddus trylwyr ar y cyd. Gyda'n gilydd, rydym oll yn benderfynol o chwarae'n rhan er mwyn cyflawni'r Cynllun Blynyddol hwn.

Isobel Garner

# Strategaeth ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2013-2016

1 Ein nod cyffredinol fel sefydliad yw bod: 'Pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus Cymru yn deall sut i wella canlyniadau. Mae'r nod cyffredinol hwn wedi'i ategu gan bedwar amcan allweddol ar gyfer 2013-2016, fel y crynhoir yn Arddangosyn 1. Mae holl waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i gynllunio i gefnogi'r tri amcan o roi sicrwydd, rhoi cipolwg a hyrwyddo gwelliant. Er mwyn cyflawni'r tri amcan hwn yn llwyddiannus, mae'n hollbwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad atebol ac effeithiol a reolir yn dda.

2 Roedd y strategaeth hon yn seiliedig ar ein hasesiad o'r amgylchedd allanol adeg ei pharatoi yn 2013. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd yn prysur newid ac yn ystod cyfnod y cynllun hwn, byddwn yn ystyried sut i ymateb i ddatblygiadau parhaus. Mae'r canlynol o bwysigrwydd penodol, gydag effeithiau pellgyrhaeddol posibl:


- y 'Bil Cenedlaethau'r Dyfodol' arfaethedig sy'n bwriadu cyflwyno dyletswyddau datblygu cynaliadwy ar y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus sydd wedi'u datganoli yng Nghymru;
- ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad *Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus* (Comisiwn Williams).

3 Wrth weithredu ein strategaeth, byddwn yn ystyried egwyddorion a nodau datblygu cynaliadwy cenedlaethol Cymru, a fydd yn nodweddion allweddol o'r dyletswyddau datblygu cynaliadwy sydd i'w disgwyl gan gyrff cyhoeddus Cymru. Mae'r egwyddorion yn debygol o gynnwys: integreiddio, atal tymor hir, ymgysylltu a chydweithio. Disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r egwyddorion hyn wrth benderfynu pa ganlyniadau i'w cyflawni a sut i'w cyflawni nhw.

4 Hefyd, bydd sefydliadau yn gorfod dangos sut maen nhw wedi blaenoriaethu eu gwaith a sut maent yn gwario'u harian er mwyn cyflawni'r canlyniadau a chyfrannu at amcanion datblygu cynaliadwy cenedlaethol. Y nodau arfaethedig yw:

- Mae Cymru'n llewyrchus ac yn arloesol;
- Mae Cymru'n defnyddio cyfran deg o adnoddau naturiol;
- Mae cymunedau ledled Cymru yn ddiogel, yn gydlynol a chryf;
- Mae pobl Cymru'n iachach ac
- Mae Cymru'n wlad fwy cyfartal.

Arddangosyn 1 – Ein nod a'n pedwar amcan allweddol



# Gwaith yr Archwilydd Cyffredinol (a'i Archwilydd Penodedig)

## Trosolwg

5 Mae'r adran hon yn disgrifio'r gwaith y mae'r Archwilydd Cyffredinol (a'i Archwilydd penodedig[2]) yn bwriadu'i wneud yn 2014-15 ac yn pwysleisio'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'n cwmpasu:

- Archwiliad ariannol
- Archwilio perfformiad
- Gwaith trawsbynciol

6 Mae rhagor o wybodaeth am swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol (a'i Archwilydd penodedig) ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru[3].

7 Mae ansawdd cyffredinol ein gwaith yn hollbwysig i ni. Er mwyn gwella'r ansawdd ymhellach yn ystod y flwyddyn, byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid cyfatebol gydag asiantaethau archwilio eraill ac adeiladu ar y gwaith rydym yn ei wneud o'n gwirfodd gydag Adran Sicrhau Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn parhau i weithio ar y cyd â rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill fel Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn helpu i ddarparu gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio cydgysylltiedig o safon uchel ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

8 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n paratoi Cod Ymarfer Archwilio newydd fel sail i'r gwaith sy'n cael ei wneud ar ei ran, a fydd yn cynnwys cyfres well o egwyddorion er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach.

## Archwiliad Ariannol

9 Mae ein gwaith archwilio ariannol yn cynnwys:

- archwilio cyfrifon;
- ardystio grantiau;
- gwaith sy'n ymateb i wybodaeth gan aelodau'r cyhoedd a heriau a gwrthwynebiadau gan etholwyr.

### Archwilio cyfrifon

10 Rhaid i gyrff cyhoeddus fod yn atebol am yr arian sydd yn eu gofal. Y brif ffordd o wneud hyn yw trwy baratoi cyfrifon blynyddol amserol a chywir. Mae'r Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig yn canolbwyntio ar archwilio'r cyfrifon hyn a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynglŷn â stiwardiaeth arian cyhoeddus.

11 Yn 2014-15, mae'r Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig yn disgwyl cyflwyno adroddiadau ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn cwmpasu llywodraeth leol, llywodraeth ganolog a'r GIG, sy'n cynnwys dros 750 o gynghorau cymuned a thref bach.

2 O 1 Ebrill 2014, yr Archwilydd Cyffredinol fydd archwilydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Cyn 1 Ebrill, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol.

3 www.wao.gov.uk/cy/amdanom-ni

### Ardystio grantiau

12 Mae grantiau yn ffynhonnell bwysig o arian yng Nghymru. Wrth ddyfarnu grantiau, mae cyllidwyr yn gosod amodau sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r rhai sy’n eu derbyn ddefnyddio’r arian at y dibenion y cytunwyd arnynt yn unig ac o dan reolaethau llym. Os caiff gais i wneud hynny, rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i ardystio hawliadau a ffurflenni ar gyfer grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a wnaed.

13 Yn 2014-15, mae’r Archwilydd Cyffredinol yn disgwyl ardystio 32 o gynlluniau grant llywodraeth leol, sy’n werth dros £3 biliwn, ac yn cynnwys dros 300 o hawliadau unigol.

14 Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn canolbwyntio’n benodol hefyd ar baratoi ar gyfer newidiadau i’r gyfundrefn grantiau yn sgil cyflwyno’r Credyd Cynhwysol a’r Rhaglen Ewropeaidd 2014-2020 newydd.

### Gwaith ymatebol

15 Mae’r ddeddfwriaeth yn rhoi’r hawl i etholwyr ac eraill fynegi pryderon wrth yr Archwilydd Cyffredinol a’i Archwilydd Penodedig ynglŷn â’r modd y defnyddir arian cyhoeddus. Pan gaiff pryderon eu crybwyll, byddwn yn ystyried y ffordd orau o ymateb iddynt a sut i adrodd am ganfyddiadau unrhyw waith a wnawn.

## Archwilio perfformiad

16 Mae ein gwaith archwilio perfformiad yn cefnogi’r Archwilydd Cyffredinol wrth iddo gyflawni’i waith archwilio gwerth-am-arian statudol a swyddogaethau asesu gwelliant. Mae gwaith archwilio perfformiad craidd yn perthyn i dair ffrwd fusnes yn fras:

- rhaglen dreigl o astudiaethau gwerth am arian a gyflawnir er mwyn ategu gwaith craffu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol;
- Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau’r GIG: yn cynnwys rhaglen flynyddol o astudiaethau Cymru gyfan o gyrff GIG a rhai prosiectau archwilio perfformiad pwrpasol lleol;
- llywodraeth leol (gan gynnwys y parciau cenedlaethol a’r gwasanaethau tân ac achub): yn cynnwys rhaglen flynyddol o waith asesu gwelliannau dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella ochr yn ochr â rhaglen astudiaethau o gyrff llywodraeth leol.

### Astudiaethau gwerth am arian

17 Mae rhaglen dreigl yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian yn ystyried materion sy’n gysylltiedig â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mae Llywodraeth Cymru a’i chyrff cyhoeddus a noddir a chyrff cysylltiedig wrth ddefnyddio’u hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau.

18 Wrth benderfynu ar ei raglen o astudiaethau, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried safbwyntiau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad. Mae ei adroddiadau yn sail i raglen waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gallant gefnogi gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu cymorth a chefnogaeth amrywiol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynorthwyo gyda'r gwaith o ystyried a chraffu ar yr adroddiadau hyn ymhellach.

19 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i gyflwyno rhwng 10 a 12 o gynhyrchion i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eu hystyried bob blwyddyn, gan gynnwys: adroddiadau gwerth am arian a gynlluniwyd; crynodebau Cymru gyfan o waith archwilio perfformiad lleol; ac adroddiadau neu friffiau amrywiol eraill yn deillio o'r holl waith archwilio a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

20 Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith astudio gwerth am arian yn 2014-15 i'w gweld yn Atodiad 1.

## GIG: rhaglen flynyddol o waith archwilio perfformiad

21 Prif elfennau'r gwaith hwn yw archwiliadau gwerth am arian (sy'n cael eu cynnal ar draws holl gyrff y GIG) gan gynnwys asesiad strwythuredig blynyddol sy'n ystyried pa mor gadarn yw trefniadau'r GIG ar gyfer llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol a pherfformiad.

22 Prif ganlyniadau'r archwiliadau gwerth am arian yw adroddiadau lleol ar gyfer cyrff GIG unigol. Fodd bynnag, maent yn cynnig potensial hefyd i gyflwyno adroddiad crynodeb Cymru gyfan ar gyfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol. Mae pob rhaglen archwiliad lleol yn debygol o gynnwys nifer fach o brosiectau archwilio perfformiad pwrpasol sy'n ymwneud â materion neu risgiau sy'n benodol i'r corff GIG unigol.

23 Ceir amlinelliad o raglen flynyddol gwaith archwilio perfformiad iechyd yn Atodiad 1.

## Llywodraeth leol: rhaglen flynyddol o waith asesu gwelliant

24 Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen flynyddol o waith asesu gwelliant sy'n cynnwys y canlynol:

- asesiadau o welliant;
- archwiliad o gynlluniau gwella blynyddol awdurdodau;
- gwirio'r cynnydd ar gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion;
- archwilio a phrofi asesiadau o berfformiad awdurdodau;
- archwiliad o ddangosyddion perfformiad.

25 Yn ogystal â’r rhaglen waith flynyddol hon, mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiadau corfforaethol cylchol trylwyr o drefniadau llywodraethu. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal chwe asesiad corfforaethol o’r awdurdodau canlynol yn 2014-15:

- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

26 Yn Atodiad 1 mae crynodeb o astudiaethau o lywodraeth leol, rhai wedi’u cynllunio ac arfaethedig, yn ystod 2014-15.

27. Byddwn yn adolygu ein gwaith a gynlluniwyd ar gyfer llywodraeth leol yn arbennig wrth inni fonitro ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Comisiwn Williams.

### Gwaith trawsbynciol

28 Rydym hefyd yn cynnal gwaith trawsbynciol pellach fel:

- nodi a lledaenu arferion da;
- Menter Twyll Genedlaethol (NFI).

## Arfer da

29 Mae dull yr Archwilydd Cyffredinol o ymdrin ag arferion da yn cynnwys nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da mewn sawl modd, gan gynnwys y Gyfnewidfa Arfer Da. Mae’r wefan hon yn cynnwys dros 550 o astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer da. Maent yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau a phynciau’r sector cyhoeddus gan gynnwys rheoli fflyd, oedi wrth drosglwyddo gofal a rheoli absenoldeb salwch. Mae gwaith archwilio perfformiad ac archwilio ariannol yr Archwilydd Cyffredinol a’r archwilwyr penodedig yn cyfrannu at y Gyfnewidfa, ac maent yn darparu enghreifftiau o’r modd mae’r cyrff a archwilir yn mynd i’r afael â’r heriau o’u blaenau. Mae’r wefan yn derbyn tua 3,000 o ymweliadau ar gyfartaledd bob mis. Ochr yn ochr â’r Gyfnewidfa, mae’r Archwilydd Cyffredinol yn hwyluso’r broses o gyfnewid gwybodaeth trwy gyfrwng seminarau dysgu ar y cyd, sy’n dod ag unigolion o bob cwr o wasanaeth cyhoeddus Cymru ynghyd i rannu profiad a gwybodaeth.

30 Rydym yn cefnogi gwefan Arfer Da Cymru - goodpracticewales.com - hefyd sy’n galluogi defnyddwyr chwilio am enghreifftiau o arferion da, astudiaethau achos a dogfennau eraill gan 20 o sefydliadau gwella a chyrff eraill sy’n gysylltiedig â gwella’r sector cyhoeddus. Mae’r wefan yn cynnig mynediad i dros 3,000 o astudiaethau achos ac yn derbyn dros 10,000 o ymweliadau bob mis.

31 Dyma’r prif weithgareddau sydd ar y gweill i’r Gyfnewidfa Arfer Da yn 2014-15:

- cyflwyno arferion da i weithgareddau prif ffrwd;
- meithrin cysylltiadau agosach â chyrff archwilio ac arolygu eraill fel Audit Scotland, Northern Ireland Audit Office ac Improvement Scotland;
- datblygu digwyddiadau dysgu ar y cyd gyda phwyslais parhaus ar reoli asedau, gan gynnwys rheoli adeiladau, tir a throsglwyddo asedau a rheoli cyfleusterau;
- canfod dulliau ataliol sy’n galluogi gwasanaethau cyhoeddus i ganolbwyntio ar helpu dinasyddion i ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb a lleihau’r angen i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

## Menter Twyll Genedlaethol

32 Dyma ymarferiad cydweithredol a gynhelir bob dwy flynedd ledled y DU sy’n paru data electronig o fewn a rhwng cyrff y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn atal ac olrhain achosion o dwyll. Ers ei chychwyn ym 1996, mae ymarferiadau’r Fenter wedi arwain at ganfod gwerth dros £22 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad ar 2012-13 yn ystod haf 2014.

33 Mae’r defnydd o ddata’r Fenter yn cael ei reoli o hyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth diogelu data a hawliau dynol. I’r perwyl hwnnw, mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi Cod Paru Data a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am bobl yn cael ei diogelu a’i phrosesu’n briodol.

# Rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru

## Trosolwg

34 Mae'r adran hon yn amlinellu prif flaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014-15, gan gynnwys:

- y defnydd o'i chyfrifoldebau statudol amrywiol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf);
- gwaith i'w wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cyflawni amcanion sylfaenol ein Strategaeth Gorfforaethol 2013-2016 o fod yn sefydliad atebol ac effeithiol a reolir yn dda sy'n darparu amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol.

## Cyfrifoldebau statudol Swyddfa Archwilio Cymru

35 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o gyfrifoldebau statudol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru gan gynnwys:

- darparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol (gan gynnwys darparu staff a'r asedau angenrheidiol iddo allu cyflawni ei swyddogaethau archwilio);
- monitro'r broses o gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;
- codi tâl a pharatoi adolygiad blynyddol o Gynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru;
- darparu cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â chyflawni ei swyddogaethau.

36 Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

37 Mae paragraff 64 yn nodi'r adnoddau i'w darparu i'r Archwilydd Cyffredinol yn 2014-15 a sut y dylid defnyddio'r adnoddau hynny i gynnal rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a'i Archwilydd Penodedig.

## Cyflawni ein hamcan o fod yn sefydliad atebol ac effeithiol a reolir yn dda

38 Blaenoriaeth allweddol y Bwrdd yn ystod 2014-15 fydd sicrhau proses bontio esmwyth i'r Swyddfa Archwilio newydd yn unol â'r amcanion sylfaenol sydd yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2013-2016, sef bod yn sefydliad atebol ac effeithiol a reolir yn dda sy'n darparu amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol. Mae paragraffau 39 i 52 yn cyfeirio at feysydd gwaith penodol.

### Sefydlu ein trefniadau llywodraethu newydd

39 Yn ystod 2013-14, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn paratoi  ar gyfer y newidiadau i'w threfniadau llywodraethu sy'n deillio o'r Ddeddf. Bydd y trefniadau hyn - gan gynnwys cyflwyno Bwrdd newydd a datblygu strwythurau llywodraethu ategol fel cynllun dirprwyo er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Bwrdd - ar waith erbyn 1 Ebrill 2014 i gefnogi'r Bwrdd newydd. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r rhain yn ystod 2014-15 er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben yn sgil profiad parhaus. Ni fydd y Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n llawn tan ddiwedd Mai 2014.

## Adolygu niferoedd staff a'r gymysgedd sgiliau

40 Yn ystod 2014-15, byddwn yn adolygu ein niferoedd staff a'r gymysgedd sgiliau yn wyneb newidiadau deddfwriaethol hysbys a phosibl yn y dyfodol a newidiadau eraill. Gan ystyried rhaglenni gwaith y presennol a'r dyfodol, byddwn yn parhau i fuddsoddi'n briodol yng ngweithgareddau dysgu a datblygiad personol ein staff fel bod ganddynt y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni gwaith awdurdodol gyda hygrededd ar draws sector cyhoeddus Cymru a thu hwnt.

41 Mae gwaith a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen newid diwylliant yn 2013-14 wedi dangos manteision amlwg iawn o ymgysylltu fwyfwy â gweithwyr cyflogedig gan alluogi a grymuso ein staff. Mae adeiladu ar y datblygiad hwn yn parhau'n flaenoriaeth gennym yn 2014-15.

## Defnyddio contractau fframwaith i gyflenwi gwasanaethau archwilio

42 Byddwn hefyd yn mynd ati i sicrhau bod ein defnydd o staff contract dros dro a chwmnïau contractio yn cyd-fynd yn llwyr â'n strategaethau corfforaethol a'r gweithlu. Mae'r contractau fframwaith ar gyfer cyflenwi gwasanaethau archwilio gan gwmnïau contractio yn dod i ben ar 31 Mawrth 2015, ac mae hyn yn arbennig yn rhoi cyfle inni ystyried a yw'r trefniadau cyfredol yn darparu gwerth am arian.

43 O dan y trefniadau cyfredol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gosod tua 22 y cant o'i waith archwilio ar gontract i chwe chwmni cyfrifeg am gyfanswm o £3.06 miliwn. Mae yna fanteision i'r dull marchnad cymysg hwn. Fodd bynnag, rhaid ystyried y manteision yng nghyd-destun dyfarniad diweddar HMRC ynghylch statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol, a fydd yr un mor berthnasol i Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Mae'r dyfarniad hwn yn golygu lleihau'r TAW y gellir ei adennill ar symiau a dalwyd dan y contractau fframwaith, gan gynyddu ein sylfaen costau £600,000. Un o orchwylion cyntaf y Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru newydd yn 2014-15 fydd ystyried i ba raddau y mae'n dymuno rhoi gwaith ar gontract a pha ddull contractio y mae'n dymuno ei ddefnyddio.

## Gwella ein systemau a'n prosesau

44 Fel rhan o'n hymgais barhaus i fod yn sefydliad effeithiol a reolir yn dda, byddwn yn parhau i symleiddio ein systemau a'n prosesau cyfredol lle bo modd. O 1 Ebrill 2014, byddwn yn gweithredu systemau Adnoddau Dynol a threuliau newydd, gyda'r nod cyffredinol o leihau nifer y trafodion sy'n ofynnol gan ein timau cyllid ac Adnoddau Dynol er mwyn canolbwyntio ar gyflenwi prosiectau sy'n cynnig gwerth ychwanegol i Swyddfa Archwilio Cymru.

45 Fel y pwysleisiwyd yn amcangyfrif incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015, rydym hefyd yn ystyried dewisiadau amrywiol ar gyfer newid nifer o'r systemau a ddefnyddiwn ar hyn o bryd er mwyn cynllunio, rheoli, cofnodi a storio ein gwaith archwilio gydag un cynnyrch sy'n gallu darparu dull cyson a'n helpu i wella'n dull o gyflawni ein gwaith.

46 Mewn ymateb i'r materion a godwyd yn Natganiadau Llywodraethu Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, byddwn yn mireinio ein gwybodaeth rheoli ariannol ymhellach er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion ein Pwyllgor Rheoli a'n Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru newydd. Bydd blaenoriaethau 2014-15 yn cynnwys diweddaru ein Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'n Llawlyfr Rheoli Ariannol yn sgil y trefniadau llywodraethu newydd, gan ddarparu canllawiau a hyfforddiant pellach i'n staff ynglŷn â'n system cydnabod incwm a chaffael, ac ymestyn ein hamserlen ar gyfer cynhyrchu cyfrifon blynyddol 2013-14 10 diwrnod gwaith ychwanegol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Creu rhagor o effeithlonrwydd o ran defnyddio ein hystâd a'n hasedau eraill

47 Yn ystod 2014-15, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hystâd gyda'r bwriad o wneud defnydd mwy effeithlon o'n swyddfa a sicrhau defnydd gwell o dechnoleg yn unol â'r arferion da a nodwyd. Mae iechyd a diogelwch ein staff yn flaenoriaeth allweddol i ni, ac rydym yn cynnal adolygiadau iechyd a diogelwch rheolaidd yn holl swyddfeydd Swyddfa Archwilio Cymru a'n lleoliadau o fewn safleoedd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn bodloni'r safonau gofynnol iechyd a diogelwch. Byddwn yn parhau i gynnal rhaglen dreigl o hyfforddiant, profi ac adolygu ein cynlluniau parhad busnes ac adfer mewn argyfwng ar safleoedd Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymdrin â phroblemau a allai godi.

48 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru achrediad amgylcheddol Lefel 4 y Ddraig Werdd yn ein swyddfeydd ers mis Gorffennaf 2012, ac rydym wedi cyflawni'n dda yn erbyn casgliad o dargedau amgylcheddol gan gynnwys lleihau'r defnydd o bapur a lleihau ein cyfanswm gwastraff. Yn ystod 2014-15, hoffem wella ein perfformiad yn erbyn y targedau hyn ymhellach, gan ategu ein dyletswyddau datblygu cynaliadwy ehangach tebygol a pharatoi i wneud cais am achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd.

49 Yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2012-13, nododd yr Archwilydd Cyffredinol ostyngiad pellach yn ein gwariant ar deithiau busnes (o £223,606 yn 2010-11 i £197,284 yn 2012-13). Llwyddwyd i sicrhau llawer o hyn drwy ddefnyddio mwy o gyfleusterau fideo-gynadledda a Lynx.

50 Yn ystod 2014-15 felly, fel rhan o'n rhaglen effeithlonrwydd barhaus, rydym yn bwriadu buddsoddi £98,000 mewn cyfarpar fideo-gynadledda ychwanegol, uwchraddio ein cysylltiad rhyngrwyd er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo data, adnewyddu ein gweinyddion cyfredol a gwella ein cyfleusterau storio data.

51 Mae arbedion pellach posibl yn sgil technoleg well yn cynnwys y posibilrwydd o gyhoeddi'n hadroddiadau yn electronig a chyflwyno adroddiadau rhyngweithiol ar ein gwefan newydd, a fydd yn gwella gallu defnyddwyr i chwilio am ddogfennau o'r fath. Byddwn yn datblygu hyn ymhellach yn 2014-15.

## Adolygu ein cynllun ceir fflyd a threfniadau teithio a chynhaliaeth

52 Yn dilyn adolygiad gwerth am arian gan archwilwyr allanol o'n cynllun ceir fflyd a'n cynlluniau teithio a chynhaliaeth, byddwn yn adolygu pa mor gost-effeithiol yw'r ddau gynllun yn sgil unrhyw argymhellion.

# Gwaith i'w gyflawni ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

## Trosolwg

53 Mae'r adran hon yn crynhoi'r rhwymedigaethau ar y cyd a osodwyd ar yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

### Rhwymedigaethau ar y cyd

54 Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaethau ar y cyd ar yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru (neu Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru):

- paratoi amcangyfrif blynyddol: rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru gydweithio i baratoi amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru, a'i gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol;
- paratoi adroddiadau blynyddol ac interim: rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru gydweithio i baratoi adroddiad blynyddol ac o leiaf un adroddiad interim ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru;
- paratoi cynllun blynyddol: rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol gydweithio i baratoi cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol sy'n cyflwyno eu rhaglenni gwaith unigol ac ar y cyd.

55 Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglenni gwaith y naill a'r llall ar gyfer 2014-15, a bydd yn cael ei gwblhau yn unol â'r amserlen statudol ofynnol. Hefyd, ddechrau 2015, bydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi Cynllun Busnes ar y cyd sy'n cyflwyno blaenoriaethau a thargedau'r naill a'r llall ar gyfer y cyfnod 2014-2017. Hwn fydd y cynllun cyntaf o'i fath sy'n rhan o gylch cynllunio busnes treigl o dair blynedd, a bydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein cynlluniau ac amcangyfrifon statudol yn y dyfodol.

# Ein hincwm a'n gwariant 2014-15

## Trosolwg


56 Yn yr adran hon, rydym yn crynhoi'r adnoddau sydd ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru a sut rydym yn bwriadu defnyddio'r adnoddau hynny i ategu rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

57 Amcangyfrifir mai £23.6 miliwn fydd cyfanswm yr incwm rhagamcanol ar gyfer 2014-15.

58 Daw tua 68 y cant o'n hincwm o ffioedd archwilio a godir ar gyrff rydym yn eu harchwilio. Mae'r ffigur hwn yn gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar faint o waith ychwanegol rydym yn gorfod ei wneud, er enghraifft mewn ymateb i bryderon a godir gyda'r Archwilydd Cyffredinol (neu ei Archwilydd Penodedig) neu oherwydd gwaith archwilio arbennig.

59 Cyfrifir ein ffioedd er mwyn sicrhau nad ydym yn adennill mwy na chost lawn unrhyw waith archwilio a gyflawnir gennym. Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifo ein ffioedd ar gael yng Nghynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru 2014.

### Arddangosyn 2 – Ein hincwm




60 Mae'r 32 y cant sy'n weddill o'n hincwm yn cynnwys arian o Gronfa Cyfunol Cymru sy'n cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol bob blwyddyn (£5.8 miliwn o gyllid refeniw a £0.1 miliwn o gyllid cyfalaf), grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru (£1.2 miliwn), a thua £0.3 miliwn o incwm amrywiol yn 2014-15.

61 Cyfrifir ein cyllideb flynyddol mewn modd sy'n sicrhau ein bod yn adennill costau bob blwyddyn, gyda gwariant refeniw amcangyfrifedig o £23.5 miliwn yn 2014-15, a gwariant cyfalaf o £0.1 miliwn.

62 Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â'r buddsoddiad arfaethedig yn ein seilwaith TG, gan gynnwys gwelliannau i'n cysylltiad rhyngrwyd ac adnewyddu gweinyddion.

63 Mae gwybodaeth ychwanegol am ein hincwm a'n gwariant a gyllidebwyd ar gael yn Amcangyfrif ar y cyd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyllid ar 13 Tachwedd 2013.


Arddangosyn 3 – Ein gwariant




# 2014-15 – Adnoddau rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol

64 Mae Arddangosyn 4 yn cyflwyno gwybodaeth am yr adnoddau oedd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei raglen waith. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys cyflog a chostau cysylltiedig staff archwilio Swyddfa Archwilio Cymru a thaliadau i gwmnïau'r sector preifat sy'n gwneud gwaith archwilio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae costau eraill yn cynnwys rhai y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r ddau arfer archwilio gan gynnwys adnoddau technegol, systemau TG a chostau cyhoeddi. Mae Arddangosyn 5 yn dangos sut mae'r adnoddau hyn wedi'u dyrannu ar draws swyddogaethau archwilio.

Arddangosyn 4 – Adnoddau sydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol





Arddangosyn 5 – Adnoddau wedi'u dyrannu i swyddogaethau archwilio



# 2014-15 – Adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru

65 Mae Arddangosyn 6 yn cyflwyno gwybodaeth am yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys cyflog a chostau cysylltiedig staff sy'n gweithio yn ein maes galluogwyr corfforaethol a'n harchwilwyr dan hyfforddiant, yn ogystal â chostau llety, cyfalaf a gwariant refeniw ar TG, buddsoddiad mewn dysgu a datblygu a gwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Mae gwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau yn cynnwys TAW na ellir ei hadennill, gwasanaethau proffesiynol a chyfathrebu a chostau cyhoeddi na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i arferion archwilio.

Arddangosyn 6 – Adnoddau ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru



# Ein hincwm a'n gwariant 2014-15 (o gymharu â 2013-14)


66 O ran arian parod, mae ein gwariant refeniw amcangyfrifedig yn 2014-15 wedi cynyddu £37,000 (0.1 y cant) yn unig o gymharu â 2013-14. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad gwariant o ryw 1.7 y cant mewn termau real rhwng y blynyddoedd. Rydym yn cynllunio'r gostyngiad termau real yn ein sylfaen costau er gwaethaf pwysau chwyddiant a sawl math o bwysau arall, gan gynnwys gwaith paratoadol ar gyfer deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol (paragraffau 2 a 3) a chostau sefydlu'r trefniadau llywodraethu newydd (paragraff 39).

67 Mae'r gostyngiad hwn yn bosibl diolch i'n rhaglen effeithlonrwydd barhaus sydd wedi arwain at ostyngiad termau real o ryw £5.6 miliwn neu 19.3 y cant rhwng 2009-10 a 2014-15. Mae'r mesurau effeithlonrwydd sydd ar waith hyd yma yn cynnwys:

- cyfraddau gwell o ran defnyddio staff (h.y. mae'r staff yn treulio mwy o amser ar waith archwilio cynhyrchiol a llai o amser ar gymorth ategol a gweithgareddau nad ydynt yn gynhyrchiol);
- newid cymysgedd sgiliau'r staff;
- gwneud defnydd mwy effeithlon o gyflenwadau a gwasanaethau, lleihau costau llety a chostau ynni (er gwaethaf prisiau cynyddol) a gosod targedau arbedion amser real ar gyfer deiliaid cyllidebau unigol.

# Atodiad 1
# Rhaglen waith genedlaethol ar gyfer archwilio perfformiad 2014-15

Mae'r ffigur isod yn crynhoi'r rhan fwyaf o waith archwilio perfformiad cenedlaethol yn rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2014-15 - llawer ohono eisoes ar waith ac i'w gyhoeddi mewn adroddiadau yn ystod 2014-15. Mae'n cynnwys cyfres o archwiliadau ymatebol, mewn ymateb i faterion a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gysylltiedig â phryderon cyhoeddus.



Mae'r gwaith hwn yn ychwanegol at waith archwiliad ariannol ac archwilio perfformiad a adroddwyd yn lleol i gyrff unigol.

Hefyd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori ar ei gynlluniau ar gyfer gwaith archwilio perfformiad cenedlaethol fel y crynhoir isod.

### Astudiaethau gwerth am arian

Mae'r Archwilydd Cyffredinol  wrthi'n ystyried ac yn ymgynghori ar feysydd posibl ar gyfer cynnal astudiaethau gwerth am arian i gychwyn yn 2014-15, ac i adrodd amdanynt yn yr un flwyddyn mewn rhai achosion. Mae'r astudiaethau hyn yn debyg o gynnwys adroddiad pellach ar gyllid iechyd. Mae'r manylion am feysydd posibl eraill ar gael ym mhapur briffio y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y cyfeiriwyd ato uchod[4].

### Astudiaethau GIG Cymru gyfan

Rydym wrthi'n trafod amlinelliad o archwiliad blynyddol 2014 gyda chyrff y GIG ar hyn o bryd. Mae'r amlinelliadau yn nodi'r astudiaethau archwilio perfformiad iechyd lleol i'w cynnal ar draws holl gyrff y GIG yng Nghymru:

- asesiad strwythuredig o ba mor gadarn yw trefniadau corfforaethol cyrff y GIG er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithiol ac effeithlon o adnoddau;
- rheoli meddyginiaethau yn y sector aciwt;
- rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol;
- asesu effaith cyllidebau is ar seilwaith TG;
- cymorth i ddatblygu arferion da.

Ar ôl cwblhau'r darnau o waith uchod ar gyfer Cymru gyfan, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried pa mor briodol yw creu crynodeb Cymru gyfan ar gyfer pob maes penodol. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn gynnar yn 2014-15 ynglŷn â pharatoi crynodeb o adroddiadau lleol a gyflenwyd dan gylch archwilio blynyddol blaenorol, ar:

- Codio clinigol
- Nyrsio cymunedol

### Astudiaethau llywodraeth leol

Ar hyn o bryd mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried ymatebion i ymgynghoriad diweddar ar bynciau ar gyfer astudiaethau llywodraeth leol i gychwyn yn ystod 2014-15. Disgwylir cadarnhad am hyn yn ystod mis Ebrill 2014. Mae'r pynciau ymgynghori yn cynnwys:

- Adolygiad 'cyflawni gyda llai o arian' sy'n canolbwyntio ar: wasanaethau hamdden; gwasanaethau rheoleiddio/gorfodi/cynllunio; neu wastraff.
- Adolygiad sy'n ystyried a yw cynghorau yn mynd ati'n effeithiol i gynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol, gan gynnwys dulliau cydgysylltiedig o weithio ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
- Archwilio sut mae cynghorau yn diwallu anghenion sipsiwn a theithwyr yng Nghymru, yng nghyd-destun fframwaith polisi 'Teithio at Ddyfodol Gwell' Llywodraeth Cymru.
- Ymchwilio i fuddsoddiad cynghorau ar wella cysylltiadau trafnidiaeth, yn enwedig y rhwydwaith priffyrdd lleol.

4 www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/rhaglen-astudiaethau-gwerth-am-arian-yr-archwilydd-cyffredinol-papur-briffio-ar-gyfer-y

- Adolygiad o wasanaethau datblygu economaidd cynghorau a'u heffaith o ran cefnogi economi gref yng Nghymru.

Hefyd, efallai bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiadau Cymru gyfan sy'n seiliedig ar waith asesu gwelliant a gynhaliwyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.